Y Loteri Genedlaethol yn 25 oed

Dathlodd y Loteri Genedlaethol ei phen-blwydd yn 25 oed yn 2019 ac mae'r £40biliwn a godwyd ar gyfer achosion da yn y cyfnod hwnnw wedi cael effaith ryfeddol ar fywyd yma yn y DU, gan ein tywys mewn oes aur i dreftadaeth y DU.

Ers y gên gyntaf ar 19 Tachwedd 1994, mae'r Loteri Genedlaethol wedi adfywio ein treftadaeth genedlaethol, gan weddnewid llawer o'n sefydliadau gwych a chyrraedd pob cymuned yn y wlad.

Mae buddsoddiad Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cyfateb i £8biliwn hyd yma. O Ynys Bute yr Alban i Flaenafon a Derry i Dungeness, rydym wedi ariannu mwy na 44,000 o brosiectau yn ystod y chwarter canrif.

Porwch drwy'r straeon isod am bobl ledled y DU yn dathlu, adfywio a rhannu eu treftadaeth, diolch i'r Loteri Genedlaethol.